



Enw:	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad Ebst:	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma safbwyntiau:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau

¹ Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (*DASU*), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (*RASASC*) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goreswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treillau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goreswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goreswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 Llywodraeth Cymru

1. Ydyd chi'n cytuno â'r Amcanion Cydraddoldeb drafft arfaethedig ym Mhennod 5?

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu nad yw'r amcanion cydraddoldeb drafft yn dangos effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ar gydraddoldeb. Er ein bod yn croesawu amcan penodol sy'n canolbwyntio ar Gymru yn dod yn arweinydd ar gyfer cydraddoldeb rhywiol, teimlwn y dylid cynnwys mwy ynghych sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â VAWDASV a sut y bydd yr amcanion hyn yn cyd-fynd â dangosyddion cenedlaethol VAWDASV. Teimlwn hefyd y dylai VAWDASV gael ei enwi'n benodol mewn amcanion eraill, sef Nod 5 – 'Dileu difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth' gan fod rheoli menywod yn gymdeithasol yn sbardun i aflonyddu.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



2. Yn eich barn chi, a oes unrhyw feysydd o anghydraddoldeb nad yw'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yn mynd i'r afael â nhw ac sy'n arbennig o arwyddocaol i chi?

Pryderwn nad yw VAWDASV yn cael ei enwi'n benodol o fewn yr amcan ynghylch cydraddoldeb rhywiol nac yn wir ar draws unrhyw un o'r amcanion. Fel y nodwyd gennym yn ein hymtaeb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru [‘Mesur Cynnydd Cenedl’](#), mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell plethu pwysigrwydd VAWDASV a'i enwi'n benodol drwy gydol yr amcanion i wella cydraddoldeb, gan fod VAWDASV yn cael effaith ar draws meysydd polisi ac yn rhwystr sylweddol i fenywod rhag cael yr un statws â dynion a'r cyfle i ffynnu.

Nodwn y caiff adroddiad yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ei ddefnyddio fel mesur ar gyfer yr Amcan 'Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol', fodd bynnag, pryderwn nad yw'r adran VAWDASV yn y map ategol i'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn cwmpasu ehangder y maes lle y mae angen mwy o gyllid a chymorth ar gyfer sector arbenigol VAWDASV. Mae angen mwy ynghylch gwaith ymyrraeth gynnar ac ataliad o ran VAWDASV, gan gynnwys model Newid sy'n Para Cymorth i Ferched Cymru² sy'n gweithio gyda chymunedau i'w grymuso i adnabod camdriniaeth yn gynharach, yn ogystal â gwaith arbenigol penodedig gyda goroeswyr VAWDASV sy'n blant; bu Cymorth i Ferched Cymru yn ymgychu dros yr angen am gyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gweithwyr plant mewn llochesau ac yn y gymuned. Mae angen mwy hefyd o ran rôl addysg yn y gwaith o adnabod yn gynnar VAWDASV. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar [Dangosyddion Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Drafft](#) argymhellwyd gennym gasglu data mewn perthynas â darparu adnoddau Addysg Rhyw a Chydberthynas ynghyd â disgwyliad i ysgolion ddangos tystiolaeth o'u dull o ymdrin â chydraddoldeb rhywiol ac Addysg Rhyw a Chydberthynas.

Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod yn genedl noddfa a nodwn yn [Cynllun y Genedl Noddfa](#), gymorth i fenywod sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Fodd bynnag, nid yw'n mynd i'r afael â'r rhwystr enfawr i gael mynediad at gymorth sy'n wynebu menywod nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus; sef nad oes gan lawer o wasanaethau arbenigol yr adnoddau i gefnogi menywod nad oes ganndynt hawl i gyllid cyhoeddus, yn arbennig o ran lleoedd mewn llochesau gan eu bod yn dibynnu ar fudd-dal tai i ariannu'r lleoedd hynny. Er ein bod yn sylweddoli bod hawl i les wedi'i gadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU, galwn ar Lywodraeth Cymru i ystyried pa gyllid y gellid ei ddarparu i'r sector VAWDASV arbenigol er mwyn cefnogi'r menywod hynny sy'n ffoi rhag camdriniaeth ac sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus. Nid ydym yn teimlo y gall Llywodraeth Cymru honni ei bod yn genedl noddfa ar

² <https://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid os caiff menywod sy'n byw gyda cham-drin a thrais eu hatal rhag cael mynediad at y cymorth achub bywyd sydd ei angen arnynt.

O ran Nod 5, 'Dileu difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth', dylai VAWDASV gael ei enwi'n benodol fel sbardun i'r camdriniaethau hyn, yn arbennig aflonyddu. Nid yw'r Nod hwn yn cynnwys unrhyw fanylion am agenda wedi'i chynllunio ar gyfer gwaith ataliol/ymyrraeth gynnar, yn hytrach mae'n canolbwyntio'n unig ar sicrhau mynediad at gymorth. Wrth gwrs, mae angen mynediad at gymorth arbenigol ar unrhyw un sydd wedi'i (h)effeithio gan droseddau casineb ac aflonyddu, ond mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael ag achosion y troseddau hyn a'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn olaf, o ran monitro'r broses adrodd, teimlwn y dylid cynnwys hefyd ddata o linell gymorth Byw Heb Ofn.

Mae'n rhaid i'r ymateb i VAWDASV a'r ymrwymiad i'w ddileu fod yn llawer mwy amlwg yn y gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb gan fod mynediad at gyfran gyfartal o bŵer, adnoddau a dylanwad yn cael ei lesteirio'n ddifrifol gan y camdriniaethau hyn.

3. A oes unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg / materion/ tystiolaeth mewn perthynas ag anghydraddoldeb yng Nghymru y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn eich barn chi?

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu am effaith Brexit ar fenywod, o ran colli cyllid ar gyfer gwasanaethau allweddol y caiff menywod fynediad iddynt, yr effaith andwyol a gaiff Brexit ar ffyniant economaidd menywod ac yn arbennig yr effaith ar fynediad menywod yr UE i wasanaethau a chyllid cyhoeddus. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu y bydd menywod mudol yr UE yn dioddef o gael eu hawliau wedi'u cyfyngu a'u dileu ar ôl Brexit yn ogystal â wynebu cyfyngiadau ar y broses o ymgeisio am 'statws preswlydd sefydlog'. Mae menywod sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV yn wynebu mwy o berygl o fethu â chael mynediad i'w statws sefydlog yng nghyd-destun rheolaeth gymhellol, priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd fel y'i gelwir, pan all drwgweithredwyr barhau i ormesu drwy atal menywod rhag profi eu bod yn preswlyo yma a defnyddio eu statws menwfudo i reoli ac ynysu ymhellach. Bydd hyn yn dwysáu'r pryderon hynny sydd gan Cymorth i Ferched Cymru eisoes ynghylch statws menywod o'r tu allan i'r UE, nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.

Mae'r UE wedi bod yn allweddol o ran datblygu amddiffyniadau i fenywod. Pryderwn y bydd gadael yr UE yn arwain at gymryd camau yn ôl o ran yr hawliau a'r amddiffyniadau hynny ac mae Cymorth i Ferched Cymru yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chynllun i ddiogelu menywod rhag y goblygiadau negyddol hyn.

Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ar ôl Brexit, yn arbennig y ffocws ar gyflwyno Confensiynau amrywiol y Cenhedloedd Unedig i gyfraith Cymru a'r ffaith ei bod yn ystyried Bil Hawliau Dynol ar gyfer Cymru. Rydym

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



am i fenywod a goroeswyr a effeithir gan VAWDASV gael eu gweld fel grŵp blaenoriaeth i'w hystyried yn y broses hon ac ailadroddwn ein galwad ar i Lywodraeth Cymru greu cronfa y gall y sector arbenigol gael mynediad iddi er mwyn cefnogi pob menyw sydd â statws mewnfudo ansefydlog sy'n profi trais a chamdriniaeth.

4. Beth yw eich barn ynghylch y dull o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb sy'n cyfrannu at nodau dyheadol yn y tymor hwy?

Er ein bod yn sylweddoli bod hon yn broses hirdymor, teimlwn fod y newid wedi bod yn rhy araf, yn arbennig o ran gweithio tuag at ddileu VAWDASV sy'n achos ac yn ganlyniad anghydraddoldeb rhywiol. Cytunwn y dylid cael 'cydweithredu i ddatblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru' gan fod dull system gyfan yn hanfodol i sicrhau cydraddoldeb, ond teimlwn fod angen ymrwymiad cryfach gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na 'nodau dyheadol', ac y dylid cael ymrwymiad ymarferol tuag atynt hefyd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa adnoddau a chapasiti sydd ar gael iddynt gyflawni'r 'nodau dyheadol' ac ystyried sut y gallant weithio orau gyda'r arbenigedd penodol a'r wybodaeth ar lawr gwlad i lywio hyn, megis Cymorth i Ferched Cymru yng nghyd-destun VAWDASV. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu Confensiwn Istanbul, ond bydd hyn yn parhau'n ddyheadol oni bai eu bod yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Cymru a'r sector arbenigol i'w gyflawni.

5. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddatblygu nifer bach o gamau gweithredu allweddol o dan bob Amcan, sy'n gysylltiedig â'r 6 maes yn A yw Cymru'n Decach? 2018, fel enghreifftiau i ddangos sut y caiff yr amcanion eu cyflawni?

Mae Cymorth i Ferched yn cydnabod pwysigrwydd cadw nifer y camau gweithredu yn nifer cyraeddadwy, fodd bynnag mae'n pryderu na fydd camau gweithredu penodol mewn perthynas â VAWDASV gan nad yw'r amcanion cyfredol yn ei enwi (ac ni welsom y camau gweithredu hyd yn hyn). Dylid ystyried camau gweithredu i fynd i'r afael â VAWDASV ar draws yr amcanion gan fod cynifer ohonynt yn gallu cael eu heffeithio gan VAWDASV; er enghraifft, o ran gwella canlyniadau tlodi, gall VAWDASV gynnal statws tlodi i fenywod a phlant, gan ei gwneud yn anodd yn arbennig i symud ymlaen o gam-drin, gyda budd-daliadau lles a chredyd cynhwysol, yn enwedig, yn hwyluso cam-drin economaidd; mae'n amlwg ei fod yn torri hawliau dynol ac mae'n digwydd i fenywod a merched, oherwydd eu bod nhw'n fenywod a merched, a gall bod yn rhan o fywyd cyfreithiol, cyhoeddus a beunyddiol gael ei effeithio gan drais a chamdriniaeth yng nghyd-destun rheolaeth gymhellol, neu mae'n digwydd oherwydd effaith barhaus y trawma o fyw gyda thrais a cham-drin.

Mae adroddiad 'A yw Cymru'n Decach' yn nodi'r taer angen i wella profiadau menywod a phlant ac yn nodi'r rhan y mae aflonyddu a cham-drin domestig yn ei chwarae fel rhwystr i fenywod rhag gweithio. Yn ei argymhellion, mae'n galw am weithredu'n llawn Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn ogystal â rhaglenni ataliol priodol a chymorth amserol i bob goroeswr³. Mae'n amlwg bod enwi a mynd i'r afael â VAWDASV yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau cydraddoldeb yng Nghymru.

Croesawn gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno dyletswydd economaidd-gymdeithasol a phwyswn arni i ystyried sut y mae anfantais economaidd yn gorgyffwrdd â llesiant gwael. Mae carfannau penodol o bobl yn fwy tebygol o fyw mewn tloedi ac o fethu â dianc rhagddo, megis menywod sy'n wynebu anfantais luosog sydd yn eu tro yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais a chamdriniaeth na'r menywod nad ydynt mewn tloedi. Wrth gwrs, mae rhai menywod yn fwy tebygol o fod mewn tloedi, gan gynnwys menywod lleiafrifol, anabl a/neu fenywod lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Yn ogystal â hyn, gwyddom fod caledi ariannol yn gyffredin i fenywod ar ôl iddynt wahanu gyda llawer o fenywod sy'n cael mynediad i lochesau yn methu â gweithio, yn aml yn gorfod gadael swydd er mwyn symud i ffwrdd i le diogel ac yn cael mynediad i fudd-dâl tai i dalu'r rhent mewn lloches.

6. Ydych chi'n cytuno â'r bwriad i barhau i sicrhau bod cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol?

Er ein bod yn teimlo ei bod yn gwneud synnwyr i sicrhau bod y cyllid yn cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol, mae angen cryfhau'r amcanion i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn ymroi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac atal yr anghydraddoldebau hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Adleisiwn hefyd bwynt WEN Cymru fod cyfnod y Grant Cyllid a Chynhwysiant yn gymharol fyr, er bod yr amcanion yn canolbwyntio ar nodau dyheadol hirdymor, ac felly y dylai nodau ac amcanion ar gyfer y grant fod yn nodau tymor byr i ganolig sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol cyffredinol. Gwyddom hefyd fod yna gorff o waith y tu allan i'r Gronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant i fynd i'r afael â chydraddoldeb a chynhwysiant, megis y gwaith a wneir gan Cymorth i Ferched Cymru a gwasanaethau arbenigol VAWDASV sydd wedi'u cyllido drwy ffrydiau eraill.

7. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gallem adeiladu momentwm a chynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu lle rydych o'r farn y gallai fod effeithiau negyddol, beth y gallwn ei wneud i'w lliniaru?

O ran y tair prif elfen a nodir ym mhennod 5, awgryma Cymorth i Ferched Cymru fod angen eglurder ynghylch lle y byddai'r Gymraeg yn sefyll yn y Nodau Hirdymor. Er enghraifft, efallai na fydd disgwyl i sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat gadw'r un safonau gan y 'cynigir y nodau hyn fel model y gall sefydliadau eraill fod am ei fabwysiadu.'

³ A yw Cymru'n Decach? Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf> tudalen 135

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



Wrth ystyried nodweddion gwarchoddedig sy'n gorgyffwrdd a datblygu amcanion sy'n gorgyffwrdd, mae'n bwysig sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y model hwn ac y darperir cymorth a gwybodaeth yn newis iaith pobl.

8. Esboniwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gallai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O ran yr amcanion o dan y Nodau Hirdymor, argymhellwn y dylid ystyried y canlynol;

- Nod Hirdymor 1; Gall fod rhwystrau ychwanegol mewn meysydd lle ceir cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth leol, a'r rheini wedi'u dwysáu gan natur wledig ardaloedd a'r anhawster o gael mynediad i ardaloedd mwy anghysbell.
- Nod Hirdymor 5: Sicrhau bod gan lwybrau adrodd opsiynau Cymraeg ar gyfer pob math o aflonyddu a throseddau casineb.
- Nod Hirdymor 6: Mae angen cymryd gofal yma i sicrhau y caiff y Gymraeg ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg yn y nod hwn er mwyn dod â chymunedau at ei gilydd. Mae'n rhaid cael darpariaethau ar gyfer grwpiau sy'n siarad Cymraeg i ddarparu adborth a mewnbwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

C:\Users\AliWhite.WWA.000\AppData\Local\Microsoft\Windows\INetCache\Content.Outlook\UNO
BRR3E\WWA Translation 90 WWA response to Strategic Equality Objectives 2020-2024 -

FINAL.docx